

PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD EDC 03-01(p4)

DYDDIAD: 14 CHWFROR 2001

LLEOLIAD: YSTAFELL BWYLLGOR [1]

TEITL: DRAFFT O GYNLLUN GWEITHREDU CYFLE CYFARTAL Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD

Pwrpas y papur

1. Rhoi drafft o gynllun gweithredu cyfle cyfartal y Pwyllgor Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor.

Cefndir

2. Mae Adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad dalu sylw dyledus i gyfle cyfartal. Mae Adran 120 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad sefydlu Pwyllgor Cyfle Cyfartal a pharatoi adroddiad ym mhob blwyddyn ariannol ar lwyddiant ei bolisiau Cyfle Cyfartal.
3. Fel rhan o'r broses hon, mae pob Grp yn y Cynulliad wedi cael y dasg o baratoi Cynllun Gweithredu Cyfle Cyfartal yn nodi sut y bwriedir mynd i'r afael â'r materion perthnasol.

Cynllun Gweithredu Drafft y Pwyllgor Datblygu Economaidd

4. Ceir copi o'r cynllun drafft yn Atodiad 1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, sydd â staff o 180, yn gwbl ymroddedig i egwyddorion cyfle cyfartal ym mhob rhan o'i waith. Mae hyn yn cynnwys cyfle cyfartal fel cyflogwr pobl yn y Grp, a chyfle cyfartal ym mhob maes o ddarparu gwasanaethau a datblygu polisiau yn y Grp. Ein nod yw gwneud cyfle cyfartal yn rhan annatod o'n gwaith a'i wneud yn elfen sylfaenol o'r cam cynllunio hyd at gyflwyno a gwerthuso gwasanaethau. Bydd gwneud hyn yn arwain at berthnasau gwaith agos gyda'r cyrff cyfle cyfartal statudol a gwirfoddol.
5. Fel arfer da, mae'r cynllun drafft wedi cael ei drafod a'i gytuno gyda'r Uned Cyfle Cyfartal a hefyd gyda Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA)
6. Mae'r cynllun yn ymgorffori polisiau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd tuag at gyfle cyfartal; mae'n darparu targedau ymestynnol ond cyraeddadwy ar gyfer cyflogaeth ac agweddau sy'n ymwneud â staff erbyn y flwyddyn 2003, ac yn disgrifio ystod o dargedau penodol ar gyfer cyfle cyfartal, ynghyd a threfniadau monitro ac adolygu ar gyfer darparu gwasanaethau a datblygu polisiau yn y Grp.

Gweithredu

7. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a rhoi sylwadau ar y cynllun drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal.